**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Panel Gweithredol**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ddydd Llun 10 Mai 2020. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

**Yn bresennol**

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| P Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc); K Finch (Trysorydd); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 CHWEFROR 2021

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2021 eu cyflwyno er mwyn eu cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 Y DIWEDDARAF O RAN COVID-19

6.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth am effaith COVID-19 ar y Gwasanaeth.

6.2 Yn unol â'r llacio ar weithgarwch ar lefel genedlaethol mewn perthynas â COVID-19, mae'r cyfnod argyfwng wedi cael ei leihau ac mae'r Gwasanaeth bellach yn symud i'r cyfnod adfer. Mae'r staff yn parhau i weithio o gartref pan fo'n bosibl, felly lefel isel iawn o weithgarwch sy'n digwydd ar safleoedd GTAGC; rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn y tymor canolig.

6.3 Mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu Cell Trawsnewid i ystyried ffyrdd o weithio ar ôl COVID, ac er y bydd rhai gweithgareddau ers cyn COVID yn ailddechrau cydnabyddir y bydd ffyrdd newydd o weithio a ganfuwyd yn ystod y pandemig yn parhau i rai adrannau.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 ADOLYGIAD ARCHWILIO CYMRU O GADERNID CORFFORAETHOL

7.1 Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Euros Lake a Nick Selwyn o Archwilio Cymru, a ddaeth i'r cyfarfod i gyflwyno adolygiad Archwilio Cymru o gadernid corfforaethol.

7.2 Yn 2020-21, fe wnaeth Archwilio Cymru gynnal adolygiad o gadernid corfforaethol ymhob Awdurdod Tân ac Achub (ATA) yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae pob Awdurdod yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol a'r heriau capasiti sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn nodi casgliadau'r adolygiad ac yn gwneud cynigion ynghylch sut gellir cryfhau cadernid a chynaliadwyedd yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr 'Awdurdod').

7.3 Rhoddodd y swyddogion o Archwilio Cymru gyflwyniad i'r Aelodau, gan esbonio bod Archwilio Cymru, oherwydd COVID, wedi aildrefnu ei waith archwilio arfaethedig er mwyn galluogi sefydliadau cyhoeddus i ddelio ag argyfwng COVID; felly roeddent wedi cael cyfle i gynnal adolygiad o gadernid corfforaethol ymhob un o'r tri awdurdod tân ac achub (ATA) yng Nghymru.

7.4 Da oedd nodi bod yr Awdurdod wedi ymateb yn dda yn ystod y pandemig ac wedi dangos cadernid da yn y tymor byr. Fodd bynnag, teimlai swyddogion Archwilio Cymru fod angen i'r Awdurdod ystyried y risgiau a'r heriau hirdymor sy'n ei wynebu o ran cadernid ac i nodi'r canlynol:

- Cyllid – er mwyn parhau'n gynaliadwy yn ariannol ac adeiladu ar hanes cadarnhaol yr Awdurdod o reoli cyllidebau'n dda, mae'r risgiau allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw yn cynnwys rheolau pwysau ar sail galw;

- Llywodraethu – mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol, a nodwyd bod y cynllun dirprwyo wedi gweithio'n dda yn ystod y pandemig felly gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a allai'r Awdurdod ystyried grymuso swyddogion a datganoli rhai o'r penderfyniadau er mwyn i'r Aelodau ganolbwyntio ar y risgiau strategol mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;

- Gweithlu – mae gan yr Awdurdod weithlu cadarn sydd wedi bod yn amlwg drwy gydol y pandemig, gyda chefnogaeth dda i'r staff a mentrau sy'n cynnal llesiant. Fodd bynnag, roedd Archwilio Cymru o'r farn fod cynllunio'r gweithlu a chynllunio olyniaeth yn dal yn faterion heriol ond roeddent yn croesawu ymestyn y rhaglenni prentisiaethau ac Arweinyddiaeth y Dyfodol ac roeddent o'r farn bod y rhain yn allweddol ar gyfer cadernid yn y gweithlu yn y dyfodol.

- Asedau - er bod gan yr Awdurdod enghreifftiau da o sut mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg, mae angen mynd i'r afael â rhai heriau hir sefydlog er mwyn helpu i gefnogi cadernid yn y dyfodol. Mae Archwilio Cymru yn argymell y dylai'r Awdurdod adolygu a herio ei ragdybiaethau yn rheolaidd ynghylch asedau, gan gynnwys gorsafoedd.

- Parhad busnes – mae cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod, sydd wedi cael eu profi'n dda, wedi helpu i gynnal cadernid corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig, ac mae gan yr Awdurdod brosesau da ar gyfer dysgu o brofiadau diweddar.

7.5 Ar sail y pum maes hyn, mae Archwilio Cymru wedi gwneud tri chynnig gwella, fel a ganlyn:

- mae'r Awdurdod yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu er mwyn rhoi sicrwydd fod y trefniadau cyfredol yn cefnogi gwaith craffu manwl, yn dal y swyddogion i gyfrif ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;

- er mwyn gwella cynllunio olyniaeth, dylai'r Awdurdod ailddechrau ac adeiladu ar ei raglen ar gyfer ymgeiswyr â photensial uchel;
- er mwyn cefnogi cadernid, dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd er mwyn canfod cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r trefniadau ymateb brys.

7.6 Eglurodd Mr Selwyn y cynigion ar gyfer gwella.

7.7 Y cynnig cyntaf ynghylch y trefniadau llywodraethu yw cynnig bod yr Awdurdod yn gwerthuso ac yn symud ymlaen â gwersi cadarnhaol o'r pandemig a sut cafodd gwasanaethau llywodraethu eu darparu, ynghyd â'u defnyddio i gryfhau'r modd y caiff penderfyniadau eu gwneud yn yr Awdurdod yn y dyfodol.

7.8 Nodwyd bod Archwilio Cymru yn gefnogol iawn i'r rhaglen brentisiaethau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer arweinwyr y dyfodol, ac roeddent yn teimlo ei bod yn gam cadarnhaol ymlaen i ganfod arweinwyr y dyfodol ar gyfer y sefydliad ond hefyd i gryfhau ac i ddelio â rhai o'r problemau a ganfuwyd o ran y gweithlu.

7.9 O ran y trydydd cynnig, esboniodd Mr Selwyn fod hyn yn ymwneud â'r sylfaen asedau a sut caiff gorsafoedd eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau sydd angen eu darparu. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad oedd hyn yn awgrymu y dylai gorsafoedd gael eu cau neu orsafoedd newydd gael eu hagor, ond yn hytrach deall sut beth fydd y galw yn y dyfodol ar sail yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig a cheisio paru'r ffordd orau o ddarparu'r gwasanaethau hynny gyda'r sylfaen asedau sydd ar gael. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i fod mewn sefyllfa gryfach os a phryd y caiff penderfyniadau eu gorfodi o ganlyniad i newidiadau mewn cyllid cyhoeddus.

7.10 Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am yr adroddiad ac am y sylwadau cadarnhaol a wnaed am y Gwasanaeth, a chyn gwahodd cwestiynau gan yr Aelodau ymatebodd i'r tri chynnig a awgrymwyd. Yng nghyfnod cynnar y pandemig, roedd yr Aelodau wedi cytuno i ddelio â materion yr Awdurdod drwy ohebiaeth; roedd y Panel Gweithredol wedi cwblhau ei waith o ran y cynigion cynllunio am y deuddeg mis canlynol ac yna mater i'r swyddogion oedd helaethu a datblygu'r rhain ymhellach. Roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cael cyfarfodydd rheolaidd â'r Prif Swyddog Tân ac roedd yr holl Aelodau wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig yn rheolaidd.

7.11 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fydd yn cael ei drafod yn nes ymlaen ar yr agenda yn un manwl ac yn cynnwys amserlen, ac roedd y Cadeirydd o'r farn fod hyn yn gredyd i'r swyddogion eu hunain.

7.12 O ran cynllunio olyniaeth, teimlai'r Cadeirydd fod y PST wedi oedi'r gwaith hwn am y rhesymau cywir er mwyn i ddeiliad newydd y swydd gael cyfle i sefydlu strwythur newydd.

7.13 Dywedodd y Cadeirydd y bydd cadernid yr Awdurdod yn ddibynnol yn rhannol ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch rôl diffoddwyr tân yn y dyfodol a hefyd y dyletswyddau ychwanegol posibl a fydd ar yr Awdurdod yn dilyn ymchwiliad Grenfell, Hefyd, bu'r Cadeirydd yn ystyried a fydd effeithiau manteisiol i'r System RDS gan fod mwy o bobl yn gweithio o gartref.

7.14 I ymateb i gwestiwn am natur yr adroddiadau ar gyfer y ddau ATA arall yng Nghymru, cadarnhawyd bod y materion yn eithaf tebyg a bod y cynigion yn eithaf cyffredinol ar draws y tri ATA yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd bod sefyllfa ariannu ATAGC yn wahanol i rai'r ddau ATA arall yng Nghymru.

7.15 Ategodd y Cyng. M Ll Davies eiriau'r Cadeirydd ac awgrymu bod y penderfyniad yn yr adroddiad yn cael ei newid i ddweud bod yr Aelodau wedi nodi'r canfyddiadau a'u bod yn derbyn y cynigion gwella a nodwyd ym mharagraff 11 yn yr adroddiad. Cytunwyd ar y newid hwn gan yr Aelodau, felly **PENDERFYNWYD nodi a derbyn canfyddiadau'r adroddiad.**

8. RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

8.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o gynnwys cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod.

8.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Panel Gweithredol, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar Reoli Risgiau strategol, yn cael adroddiad cryno ar y risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cwrdd â'r swyddogion yn ddiweddar gyda'r bwriad o weld holl fanylion y gofrestr.

8.3 Nodwyd o blith yr amrywiaeth lawn o risgiau mai'r rhai yr ystyrir fel y rhai uchaf yw'r rhai sy'n ymwneud â lefel cadernid yr Awdurdod naill ai rhag ymosodiad ar ei systemau cyfrifiadurol neu at golli'n sydyn staff sydd â gwybodaeth a/neu brofiad arbenigol. Cydnabuwyd bod y rhain yn debygol o aros ar lefel risg uchel hyd yn oed petai gwrthfesurau'n cael eu cynllunio.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol y canfuwyd eu bod yn wynebu'r Awdurdod.**

9 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21

91. Fe wnaeth PSTC MacArthur gyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21.

9.2 Yn unol â Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government* (2016) (y Cod), rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

9.3 Nodwyd bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 wedi cael ei baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Cod, sy'n cynnwys saith maes allweddol o lywodraethu ac sydd hefyd yn cynnwys blaenraglen waith ar gyfer 2021/22. Caiff y Datganiad ei gyhoeddi fel rhan o'r gwaith o lunio datganiadau ariannol statudol 2020/21. Bydd yr archwilydd allanol yn asesu'r ddogfen i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a'i bod wedi'i llunio yn unol â'r Cod.

9.4 Cyfeiriodd y PSTC MacArthur at y sylwadau cadarnhaol a wnaed gan Archwilio Cymru am drefniadau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethu; hefyd fe wnaeth y Cadeirydd ganmol y cynllun gweithredu manwl a'r amserlenni sydd yn y cynllun gweithredu.

9.5 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod y trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredu, fel yr amlinellir yn Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 yn cael eu cymeradwyo.**

10 Y TREFNIADAU AR GYFER PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU

10.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y trefniadau perfformiad a llywodraethu ar gyfer awdurdodau tân ac achub (ATAau). Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig dull i gefnogi gallu'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer newidiadau a ddisgwylir i'r trefniadau perfformiad a llywodraethu tra'n parhau i gydymffurfio â'r gofynion presennol.

10.2 Yn y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod, roedd yr Aelodau wedi cael gwybodaeth am ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud newidiadau i drefniadau perfformiad a llywodraethu'r ATAau. Nodwyd fodd bynnag fod rhaid i Lywodraeth Cymru, er mwyn i'r newidiadau hynny gael eu gweithredu, gyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Tân ac Achub, cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer rheoli perfformiad, a datgymhwyso Mesur Llywodraeth Leol 2009 ar gyfer ATAau. Nid oes dyddiad penodol wedi'i osod ar gyfer cyflwyno'r newidiadau hyn arno neu ar ei ôl. Felly, bydd angen i'r Awdurdod baratoi ar gyfer y newidiadau tra'n parhau i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol cyfredol ar gyfer Cynllunio Gwelliant a Llesiant.

10.3 Mae'r Awdurdod eisoes wedi cyhoeddi Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24, sy'n cynnwys saith o amcanion hirdymor ynghyd â phum deg pump o gamau gweithredu arfaethedig. Yn hytrach na dilyn y patrwm cyfarwydd o ddatblygu amcanion newydd ar gyfer 2022/23 ac ymgynghori yn eu cylch, roedd yr adroddiad yn argymell bod yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â'i amcanion cyfredol ac yn defnyddio'r misoedd nesaf i ganolbwyntio ar agweddau allweddol ar ei Gynllun cyfredol.

10.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn;**

**(ii) cytuno, wrth aros am y newidiadau i'r trefniadau perfformiad a llywodraethu ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, i ganolbwyntio am y tro ar fwrw ymlaen â'r amcanion hirdymor a'r camau gweithredu arfaethedig a nodwyd eisoes yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24.**

11 RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS (ESMCP)

11.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead wybod i'r Aelodau am Raglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP).

11.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa mai nod y prosiect hwn yw cymryd lle Airwave, sef y system radio a chyfathrebu data a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y gwasanaethau brys yn y DU. Mae Airwave yn gontract a gafaelwyd yn genedlaethol ac a oedd i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2019. Sefydlwyd yr ESMCP gan Lywodraeth Ei Mawrhydi, ac mae'n cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref i ddarparu gwasanaeth newydd. Mae'r prosiect wedi wynebu llawer o oedi ers iddo ddechrau yn 2012, felly mae contract Airwave yn debygol o gael ei ymestyn tan tua 2026. Bydd y costau cysylltiol yn cynyddu wrth i'r system fynd yn hen ac wrth i'r offer dorri.

11.3 Ymgynghorir â Llywodraeth Cymru fel Corff Nawdd Cyllid ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys yng Nghymru, a nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r estyniad i'r contract hyd yma.

11.4 Nodwyd bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Strategol Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) ar gyfer Cymru gyfan gan Brif Gwnstabl. Rhoddodd y PSTC Fairhead fanylion y risgiau sylweddol i Ogledd Cymru, gan gynnwys pryderon am ddarparu signal ffôn cadarn o ansawdd da, yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'n lleol, a chost y datrysiad yn enwedig wrth ddefnyddio datrysiadau Airwave ac ESN ar yr un pryd.

11.5 Mynegodd yr Aelodau bryderon difrifol am 'helynt' y prosiect, yr oedi mawr a'r cyllid sydd ei angen i ymestyn contract Airwave. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r pwysau costau hyd yma, a thynnwyd sylw at hyn fel risg i'r Awdurdod ers peth amser. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Airwave tan 2026.

11.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac y bydd rhagor o wybodaeth am y goblygiadau cyllidebol yn cael eu cyflwyno pan fyddant ar gael.**

12 RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CORONAFEIRWS) (CYFARFODYDD) (CYMRU) 2020

12.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc wybodaeth i'r Aelodau am Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) 2020, a gyflwynwyd oherwydd y pandemig yn Ebrill 2020 ac a ddaeth i ben ddiwedd Ebrill 2021.

12.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd awdurdodau lleol, a chyhoeddi rhai dogfennau awdurdodau lleol a mynediad atynt. Erbyn hyn, roedd y Rheoliadau wedi cael eu hymgorffori yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac roeddent yn cynnwys naratif manylach ynglŷn â gwella mynediad y cyhoedd at gyfarfodydd awdurdodau lleol, gan gynnwys presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd a chyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned. Felly, gall yr Awdurdod barhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol, os yw'n dewis hynny, a chaiff y cyfansoddiad a'r rheolau sefydlog eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

12.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Cyn cloi'r cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai dyma gyfarfod olaf y Prif Swyddog Tân o'r Panel Gweithredol. Ar ran aelodau'r Panel Gweithredol, roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r Prif Swyddog Tân am ei arweiniad a'i gefnogaeth yn y cyfarfodydd dros y blynyddoedd.